Bae Abertawe
Y MWMBWLS A GŴYR



# Llwybr Arfordir Gŵyr

Llwybr Arfordir Cymru
Wales Coast Path






Bae Rhosili

2014 TRAVELERS' CHOICE tripadvisor

dewchifaeabertawe.com
#visitswanseabay

City and County of Swansea
Dinas a Sir Abertawe

# Dwyrain Gŵyr ar Lwybr Arfordir Cymru




## Llwybr Arfordir Cymru - Gŵyr

Mae rhan Gŵyr a Bae Abertawe o Lwybr Arfordir Cymru yn ymestyn o borthladd Abertawe a Glannau SA1 yn y dwyrain, o amgylch Bae Abertawe a Phenrhyn Gŵyr, i Gasllwchwr yn y gorllewin.

Mae Llwybr yr Arfordir o amgylch arfordir godidog Gŵyr, y rhan gyntaf o'r DU a ddynodwyd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, hefyd yn un o uchafbwyntiau Llwybr Arfordir Cymru.

## Dod o hyd i'ch ffordd

Mae cyfeirbyst ar hyd Llwybr yr Arfordir sy'n defnyddio logo cragen ddraig wen ac arwyddbyst penodol i'r llwybr. Fodd bynnag, efallai byddwch am ddilyn ffordd arall ar hyd yr arfordir ar draws traethau neu ar hyd llwybrau eraill, ac mae llawer o'r rhain.

## Diogelwch

**Clogwyni** - Mae Llwybr yr Arfordir yn mynd yn agos at ymyl y clogwyn mewn sawl lle. ARHOSWCH AR Y LLWYBR!

**Llanwau** - Mae rhai rhannau o Lwybr yr Arfordir yn profi llanwau uchel. Mewn amgylchiadau eithafol, efallai bydd rhaid i chi aros nes bod y llanw'n encilio; mewn sefyllfaoedd eraill, bydd modd i chi ddefnyddio llwybr arall. Gwiriwch amserau'r llanw trwy ffonio

**Gwylwyr Glannau Abertawe** ar (01792) 366534 neu fynd i **dewchifaeabertawe.com**

**Ffyrdd** - Mae'r rhan fwyaf o Lwybr yr Arfordir yn dilyn llwybrau cyhoeddus tawel. Ond mae rhannau lle mae angen cerdded ar hyd ffyrdd heb balmant. Gofalwch wrth ddefnyddio'r rhannau hyn gan ei fod yn bosib nad yw gyrwyr yn gwybod eich bod yno.

**Dillad** - Rydym yn argymell eich bod yn gwisgo esgidiau a dillad sy'n addas i'r amodau rydych yn eu disgwyl ar Lwybr yr Arfordir ac ar gyfer adeg y flwyddyn.

**Argyfwng** - Os ewch i drafferth, ffoniwch 999 (neu 112 ar ffôn symudol) a gofyn am wylwyr y glannau. Sylwer bod signal ffôn symudol yn. wael mewn rhai ardaloedd.

## Côd Cefn Gwlad

Cadwch gŵn ar dennyn wrth fynd yn agos at ddefaid, gwartheg neu adar sy'n bridio. Gadewch glwydi fel yr oeddent pan ddaethoch ar eu traws, ac ewch adref â'ch sbwriel.

# Llwybr Arfordir Cymru Gorllewin Gŵyr

Llwybr yr arfordir

Llwybrau troed cyhoeddus

Llwybrau ceffyl cyhoeddus

Llwybrau i'r traeth

Llwybr i'r/o'r gorsafoedd trenau

Tir mynediad

Parcio

## Cynllunio'ch taith

Hyd Llwybr yr Arfordir o'r Mwmbwls i Crofty yw 38 milltir. Felly, dylech ganiatáu o leiaf 2 ddiwrnod i gerdded y llwybr cyfan (oni bai eich bod yn hynod ffit!). I fwynhau Llwybr yr Arfordir, nid oes rhaid ei gerdded i gyd ar unwaith - gallwch gael profiad arfordirol tebyg drwy gerdded rhannau ohono'n unig.

Mae llawer o Lwybr yr Arfordir yn golygu cerdded dros dir garw, grisiau, llethrau serth ac weithiau gamfeydd. Fodd bynnag, ceir rhannau sy'n addas i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a'r llai abl (e.e. promenâd Bae Abertawe), a rhai y gall beicwyr a marchogwyr eu mwynhau.

Y llwybrau porffor a gwyrdd a welir ar y map yw'r llwybrau cyfreithlon, sef porffor ar gyfer y llwybr cyhoeddus a gwyrdd ar gyfer llwybrau ceffyl. Gallwch ddefnyddio'r rhain i greu eich teithiau eich hunain yn seiliedig ar Lwybr yr Arfordir. Mae mapiau o Lwybr Arfordir Cymru ar gael ar wefan Llwybr Arfordir Cymru sef:
**www.llwybrarfordircymru.gov.uk**

## Rhoi gwybod am broblemau

Os ydych yn cael unrhyw broblemau ar Lwybr yr Arfordir neu unrhyw lwybr arall, rhowch wybod i'r:

**Tîm Mynediad Cefn Gwlad**
☎01792 635736
✉countryside.access@swansea.gov.uk





Cyhoeddwyd gan Ddinas a Sir Abertawe © Hawlfraint 2014
Roedd yr wybodaeth yn gywir wrth fynd i'r wasg, Mawrth 2014

©Hawlfraint a hawl cronfa ddata'r Goron 2014
Arolwg Ordnans 100023509

## Llety a gwybodaeth i ymwelwyr

**Canolfan Croeso Abertawe**
**dewchifaeabertawe.com**
☎01792 468321
✉ tourism@swansea.gov.uk

**Y Mwmbwls a Gŵyr**
**Canolfan Croeso**

☎01792 361302
✉ info@mumblestic.co.uk

## Cludiant cyhoeddus

Gallwch gyrraedd Llwybr yr Arfordir drwy ddefnyddio gorsafoedd trenau Abertawe a Thregŵyr.

Am wybodaeth am drenau:
**www.nationalrail.co.uk**

Am wybodaeth am fysus o amgylch yr arfordir:
**www.baytrans.org.uk**
**www.traveline-cymru.info**
☎0871 2002233

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn fformatau gwahanol. Ffoniwch Ganolfan Croeso Abertawe
☎01792 468321.

Pen y Mwmbwls © Hawlfraint y Goron Croeso Cymru 2014.
Mae'r wybodaeth yn gywir ar adeg argraffu - Mawrth 2014.